# Cynnal Arolwg o Bell ar Gofnodion

## Canllawiau i wasanaethau archifau

Mawrth 2022

Cefnogwyd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru

Ariannwyd gan Gronfa Archifau Covid-19 yr Archifau Gwladol

Cynnwys

Cyflwyniad 2

Rhan Un: Ymchwilio a dethol sefydliadau i gynnal arolwg arnynt 3

1 Trosolwg 3

2 Meini prawf dethol ar gyfer arolwg 3

2.1 A ddylech ddefnyddio meini prawf i ddethol?
2.2 Meini prawf dethol enghreifftiol
2.3 Rhoi sgôr i sefydliadau wrth ddethol

3 Adnoddau ar gyfer ymchwilio a chanfod busnesau ac elusennau 5

3.1 Data Tŷ'r Cwmnïau
3.2 Cynnyrch data Tŷ'r Cwmnïau sydd am ddim
3.3 Setiau data cwmnïau o Gymru i'w defnyddio gan wasanaethau archifau yng Nghymru
3.4 Set ddata sectorau busnes
3.5 Set ddata rhanbarthau
3.6 Cofrestr y Comisiwn Elusennau

Rhan Dau: Cynnal arolwg o bell ar gofnodion 13

4 Trosolwg 13

4.1 Cynnal arolwg o bell: manteision ac anfanteision
4.2 Crynodeb: pryd mae'n briodol cynnal arolwg o bell ar gofnodion?

5. Cysylltu â sefydliadau 14

5.1 Dulliau cysylltu
5.2 Manylion cysylltu
5.3 Beth i'w ddweud
5.4 Llythyr ac e-bost enghreifftiol

6. Holiadur eich arolwg o bell 16

6.1 A ddylech chi ddefnyddio holiadur?
6.2 Ffurflen holiadur
6.3 Darparwyr holiadur ar-lein
6.4 Enghreifftiau o gwestiynau y gallech eu cynnwys
6.5 Pa fath o gwestiynau allai fod yn anodd eu gofyn o bell?
6.6 Rhoi arweiniad ar ddiogelu archifau a chofnodion
6.7 Diogelu data

Llyfryddiaeth a darllen pellach 21

Cynnal arolygon ar gofnodion
Adnoddau ar-lein i gael canllawiau ynghylch cadwraeth cofnodion ac archifau

Atodiad 23

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnig arweiniad ar sut i gynnal arolwg o bell ar gadw cofnodion ac archifau ymysgu sefydliadau preifat megis busnesau ac elusennau. Fe'i bwriedir yn bennaf i'w ddefnyddio gan wasanaethau archifau yng Nghymru, ond gall fod o ddiddordeb i'r rheiny sydd â diddordeb ehangach mewn cynnal arolwg ar gofnodion.

Mae Rhan Un yn sôn am sut i ddatblygu methodoleg a meini prawf dethol i ganfod sefydliadau gwahanol i'w cynnwys yn eich arolwg. Rhoddir canllawiau ar sut i ddefnyddio ffynonellau data cyhoeddus agored fel cofrestri Tŷ'r Cwmnïau a Chofrestr y Comisiwn Elusennau i ymchwilio a chanfod sefydliadau targed. Mae'n bosibl felly y byddai rhan hon y canllawiau yn berthnasol i'r rheiny sy'n cynllunio arolygon o bell neu wyneb yn wyneb. Mae Rhan Un hefyd yn cynnig enghreifftiau ynghylch sut i ganfod sefydliadau yn seiliedig ar feini prawf dethol o ran sector a rhanbarth. Dylai hwn felly fod o ddiddordeb i wasanaethau archifau sydd â chylch gwaith casglu sy'n ddaearyddol benodol, megis gwasanaethau archifau awdurdodau lleol, yn ogystal ag archifau arbenigol maes pwnc.

Mae Rhan Dau yn cynnig arweiniad ar sut i gynnal arolwg o bell. Gan ddefnyddio enghreifftiau o arolwg Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru (CACC) ar fusnesau ac elusennau yng Nghymru, mae'r arweiniad yn rhoi manylion am opsiynau gwahanol ar gyfer cynllunio a gweithredu arolwg o bell, gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer y mathau o gwestiynau y gellir eu cynnwys ar ffurflen holiadur arolwg o bell.

Mae'r canllawiau yn y ddogfen hon wedi'u datblygu yn rhan o brosiect Cofnodion mewn Perygl a gynhaliwyd gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru (CACC). Cefnogir y prosiect gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a'i ariannu drwy Gronfa Archifau Covid-19 yr Archifau Gwladol.

Gemma Evans, Swyddog Prosiect Cofnodion mewn Perygl

Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru

Mawrth 2022

Rhan Un: Ymchwilio a dethol sefydliadau i gynnal arolwg arnynt

## 1 Trosolwg

Mae rhan gyntaf y canllawiau hyn, yn Adran 2, yn trafod y mathau o feini prawf dethol y gallwch eu defnyddio i sicrhau bod rhychwant y sefydliadau yn eich arolwg yn adlewyrchu blaenoriaethau eich sefydliad chi. Mae Adran 3 yn amlinellu sut y gallwch ddefnyddio data sydd ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau a Chofrestr y Comisiwn Elusennol ar gyfer Cymru a Lloegr ("Cofrestr y Comisiwn Elusennol") er mwyn canfod sefydliadau i'w cynnwys yn eich arolwg.

## 2 Meini prawf dethol ar gyfer arolwg

### 2.1 A ddylech ddefnyddio meini prawf i ddethol?

Un o'r pethau cyntaf i'w hystyried wrth lunio eich arolwg ac wrth ystyried y math o sefydliadau i'w cynnwys, yw sut i ddefnyddio meini prawf i ddethol, a pha mor llym y dylid gweithredu'r meini prawf hyn. Bydd hyn o bosibl yn dibynnu ar natur eich arolwg. Er enghraifft, os mai cam cyntaf yw eich holiaduron o bell mewn prosiect a fydd yn cynnwys asesu ar y safle yn ddiweddarach, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi fod yn fwy penodol wrth dargedu'r mathau o sefydliad y byddwch yn cysylltu â hwy. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu cynnal eich arolwg yn gyfan gwbl o bell, er enghraifft fel ymarfer 'canfod ffeithiau' i ddarganfod rhagor am y mathau o gofnodion sydd gan sefydliadau a'u hanghenion cadwraeth, gallech ystyried cynnwys ystod lawer ehangach o gwmnïau.

Sylwer: wrth gyfathrebu'n ddiwahoddiad â sefydliadau (h.y. cysylltu'n ddigymell â busnesau nad oes gennych unrhyw berthynas flaenorol â hwy), mae'n debyg mai'r gyfradd ymateb gyffredinol yw tua 10%; mae'r ffigur hwn yn cyd-fynd â'r arolwg ar fusnesau ac elusennau yng Nghymru a gynhaliwyd ar ran CACC a'r mewnbwn a gawsom gan arolygwyr cofnodion proffesiynol eraill. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai y byddai'n werth cael rhagor o sefydliadau yn rhan, eu gadael 'i mewn' fel petai yn hytrach nag 'allan' gan ei bod yn annhebygol y cewch ormod o ymatebion i'ch gwasanaeth fedru ymateb iddynt.

### 2.2 Meini prawf dethol enghreifftiol

Mae modd trefnu bod y meini prawf a ddefnyddiwch i lunio rhestr o sefydliadau i gynnal arolwg arnynt hefyd yn cyd-fynd â'ch rhesymau dros gynnal yr arolwg, yn ogystal ag yn cyd-fynd ag amcanion datblygu casgliadau eich gwasanaeth. Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi enghreifftiau o feini prawf dethol a, lle bo'n berthnasol, yn nodi pa ran(au) o'r ddogfen ganllaw hon sy'n rhoi rhagor o wybodaeth amdanynt.

- **Statws adneuo archifau'r sefydliad**: fel cam cyntaf efallai yr hoffech ddiystyru unrhyw sefydliadau sydd eisoes wedi trosglwyddo rhai o'u cofnodion hanesyddol i wasanaeth archifau allanol. I ddarganfod a yw cofnodion sefydliad yn cael eu cadw mewn cadwrfa arall, gallwch chwilio am eu henw ac unrhyw enwau blaenorol i'r cwmni yn TNA Discovery[1], Archives Hub[2], ac yng nghatalogau ar-lein gwasanaethau archifau eraill.
- **Math y sefydliad**: dylai eich arolwg ganolbwyntio'n benodol ar gwmnïau, elusennau, clybiau ag aelodau, sefydliadau anllywodraethol, neu ffurfiau eraill o gymdeithasau neu fudiadau.
- **Oedran y sefydliad**: er y gall archifau cwmnïau newydd fod â gwerth ymchwil archifol a gwerth ymchwil iddynt yn y dyfodol, gallwch ddewis canolbwyntio ar sefydliadau hŷn sydd â threftadaeth fwy sefydledig. Os nad yw oedran sefydliad yn hysbys, yn adran 3 isod ceir canllawiau ar sut i ganfod oedran cwmni neu elusen drwy gofrestri Tŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau.

---

[1] Yr Archifau Gwladol (2022) *Discovery: Explore the Catalogue*. Ar gael yn: https://discovery.nationalarchives.gov.uk/
[2] Jisc (2022) *Archives Hub.* Ar gael yn: https://archiveshub.jisc.ac.uk/

- **Ardal ddaearyddol**: yn achos gwasanaeth archifau awdurdod lleol, gallech ddewis canolbwyntio ar sefydliadau yn ardal yr awdurdod hwnnw. Mae gwybodaeth ynghylch sut i hidlo cwmnïau ac elusennau yn ôl rhanbarth wedi'i chynnwys yn y canllawiau yn adran 3.5 isod.
- **Arwyddocâd ar gyfer sector neu faes ymchwil penodol**: os yw eich gwasanaeth yn rhan o sefydliad ymchwil megis casgliadau arbennig prifysgol, neu sefydliad sydd â chylch gwaith casglu arbenigol, gall y sector y mae busnes neu elusen yn gweithredu ynddo fod yn ddangosydd allweddol o werth eu cofnodion i chi. Mae gwybodaeth ynghylch sut i adnabod cwmnïau ac elusennau perthnasol yn ôl eu sector busnes neu ddiben elusennol i'w chael yn adrannau 3.4 a 3.6 isod.
- **Maint y sefydliad**: Os oes gennych ddiddordeb mewn cynnwys, neu eithrio, sefydliadau o faint penodol, gallech ddefnyddio nifer y cyflogeion fel dangosydd. Dewis arall yw ystyried eu hincwm neu drosiant blynyddol. Dylai'r ddau ffigur hyn fod wedi'u cynnwys yn y ffurflenni blynyddol a anfonir i Dŷ'r Cwmnïau neu'r Comisiwn Elusennau. Mae gwybodaeth ar sut i gael gafael ar y ffurflenni hyn i'w chael yn adrannau 3.1 (cwmnïau) a 3.6 (elusennau) isod.
- **Cyfraniad at gymuned heb gynrychiolaeth ddigonol** yn eich casgliadau presennol, neu faes nad yw wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn eich polisi casglu.

Os ydych am gynnwys sefydliadau y gallai eu cofnodion gyfrannu at amrywiaeth eich daliadau presennol, mae'n bwysig ystyried y rhyngweithio rhwng eich meini prawf dethol. Er enghraifft, gall rhoi mwy o bwysau ar oedran sefydliadau leihau amrywiaeth y bobl gysylltiedig o ran perchnogion busnes, cyflogeion neu wirfoddolwyr sydd/oedd yn gweithio iddynt. Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw rhestrau sefydliadau a setiau data'r sector cyhoeddus yn cynnwys gwybodaeth sydd yn ymwneud â nodweddion perchnogion a gweithwyr sefydliad megis oedran, rhyw/rhywedd, a hil/ethnigrwydd.[3] Byddai darparu gwybodaeth o'r fath yn torri egwyddorion moesegol a diogelu data. Felly, mae'n anodd penderfynu, wrth ddewis ystod o sefydliadau, pa rai allai gynrychioli cymunedau penodol, neu hunaniaethau penodol, oni bai bod hon yn agwedd gydnabyddedig sy'n cael ei dathlu yn eu diben fel sefydliad fel y gwelir o'u cyfathrebiadau cyhoeddus eu hunain. O ran elusennau, er enghraifft, mae'n bosibl y gallech nodi sefydliadau o ddiddordeb o'r dibenion elusennol a dosbarthiadau buddion a restrir yn eu cofnod yng nghofrestr y Comisiwn Elusennau, neu ar eu gwefan. Yn ddelfrydol, wrth ystyried hyn, dylai eich gwasanaeth hefyd ystyried cysylltu â sefydliadau cymunedol a grwpiau cynrychioliadol a allai eich helpu i ganfod cwmnïau, elusennau a chymdeithasau yr ystyrir bod eu cofnodion hanesyddol o werth mawr i'r cymunedau eu hunain.

### 2.3 Rhoi sgôr i sefydliadau wrth ddethol

Mae sawl ffordd o ddefnyddio meini prawf i ddethol. Gallech yn syml gynnwys sefydliadau sy'n bodloni'r meini prawf cyfan, neu ran ohonynt. Dewis arall yw defnyddio meini prawf graddedig wedi'u pwysoli drwy bennu gwerth i bob sefydliad. Er enghraifft, pe bai gennych ddiddordeb mewn arolygu cwmnïau hŷn waeth beth fo'u maint, gallech:

1. bennu gwerth 5 i 'oedran', a gwerth 1 i 'maint';
2. yna rhowch sgôr i'r sefydliadau i gynhyrchu marc iddynt ar gyfer pob maen prawf, gyda'r marc uchaf wedi'i roi i'r rhai sy'n cyfateb orau;
3. lluoswch y marc â'r pwysoliad rydych wedi'i roi i bob maen prawf; ac

[3] Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn darparu arolwg hydredol o fusnesau bychain (cyflogwyr SME) sy'n nodi cyfran y 'busnesau dan arweiniad menywod' a 'busnesau dan arweiniad grwpiau lleiafrifoedd ethnig' ledled y Deyrnas Unedig, ond darperir hyn ar lefel canrannau yn unig ac nid yw'n cynnwys manylion busnesau unigol. Gweler: BEIS, Longitudinal Small Business Survey: SME Employers (businesses with 1-249 employees) UK, 2019: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/889656/LSBS_2019_employers.pdf

4. adiwch y sgôr ar gyfer pob sefydliad i lunio rhestr sydd yn nhrefn blaenoriaeth ac sy’n adlewyrchu amcanion eich arolwg.

**Senario enghreifftiol**: Mae eich gwasanaeth archifau am gynnal arolwg o gadw cofnodion ac archifau cofnodion ymhlith banciau y Canolbarth. Eich prif flaenoriaeth yw cwmnïau sy’n gwneud gweithgareddau ariannol neu fancio. Mae’r ardal ddaearyddol ychydig yn llai o flaenoriaeth, ond dylai’r cwmnïau fod wedi’u lleoli yn y Canolbarth neu’r cyffiniau. Er ei bod yn well gennych fod y cwmnïau’n hŷn, dyma’ch blaenoriaeth isaf ar gyfer dethol. Gallech osod y cwmnïau (ffuglennol) canlynol yn ôl trefn blaenoriaeth eich arolwg drwy ddefnyddio taenlen megis MS Excel:

| Company name and number | Region (principal area) | Age (incorporation date) | Business classification (ONS SIC code) | Selection criteria rankings | Criteria weighting | Weight adjusted score | Total score | Priority |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ABC plc ####### | Ceredigion | 02.04.1924 | 64191 - Banks | Sector - 5 | 3 | 15 | 28 | 1 |
| | | | | Age - 3 | 1 | 3 | | |
| | | | | Area - 5 | 2 | 10 | | |
| XYZ ltd ######### | Powys | 02.03.1901 | 64205 - Activities of financial services | Sector - 3 | 3 | 9 | 24 | 3 |
| | | | | Age - 5 | 1 | 5 | | |
| | | | | Area - 5 | 2 | 10 | | |
| 123 ltd ####### | Denbigshire | 03.02.1911 | 64191 - Banks | Sector - 5 | 3 | 15 | 25 | 2 |
| | | | | Age - 4 | 1 | 4 | | |
| | | | | Area - 3 | 2 | 6 | | |
| 456 ltd ####### | Flintshire | 01.01.1975 | 64910 - Financial leasing | Sector - 3 | 3 | 9 | 17 | 4 |
| | | | | Age - 2 | 1 | 2 | | |
| | | | | Area - 3 | 2 | 6 | | |
| 1A2B3C plc ####### | Newport | 01.03.1974 | 68310 - Real estate agencies | Sector - 1 | 3 | 3 | 6 | 5 |
| | | | | Age - 1 | 1 | 1 | | |
| | | | | Area - 1 | 2 | 2 | | |

Canlyniadau:

*Cwmni ABC Ccc,* banc 98 mlwydd oed wedi’i leoli yng Ngheredigion fyddai blaenoriaeth uchaf eich arolwg.

*Cwmni456 Cyf,* byddai asiantaeth prydlesu ariannol 47 oed yn Sir y Fflint yn flaenoriaeth is.

*Cwmni 1A2B3C Ccc*, asiantaeth eiddo o Gasnewydd fyddai’r flaenoriaeth isaf ac mae’n debyg y caiff ei ddiystyru oherwydd nad yw’n cyfateb i ofynion sectoraidd a rhanbarthol yr arolwg.

## 3. Adnoddau ar gyfer ymchwilio a chanfod busnesau ac elusennau

### 3.1 Cofrestr ar-lein Tŷ’r Cwmnïau

Tŷ’r Cwmnïau yw’r corff sy’n cofrestru ymgorfforiad cwmnïau ac mae’n rhaid i gwmnïau gyflwyno ffurflenni a chyfrifon blynyddol iddo. Mae Cofrestr Tŷ’r Cwmnïau yn ffynhonnell dda i gael gwybodaeth am gwmnïau corfforedig, gan gynnwys llawer o sefydliadau elusennol sydd hefyd wedi’u cofrestru fel cwmnïau.[4] Nid yw rhai mathau o gwmnïau, megis unig fasnachwyr, fodd bynnag, yn cofrestru â Tŷ’r Cwmnïau.

[4] Tŷ’r Cwmnïau / Companies House (2022) *Search the Register.* Ar gael yn: https://find-and-update.company-information.service.gov.uk/

Ceisiwch roi gair allweddol ym mlwch chwilio'r gofrestr (dolen i'w chael uchod) a chliciwch ar enw'r cwmni i weld a allwch ddod o hyd i'r manylion canlynol, gan y gallent fod yn arbennig o ddefnyddiol os ydych yn gwneud gwaith ymchwil cefndir, o dan y tab 'Trosolwg/Overview':

- **Enwau blaenorol y cwmni**: mae hyn yn arbennig o bwysig i'w nodi wrth chwilio yng nghatalog 'Discovery' yr Archifau Gwladol a chatalogau ar-lein eraill i wirio a ydynt eisoes wedi adneuo unrhyw archifau gyda gwasanaeth archifau allanol;
- **Ymgorfforwyd ar**: mae hwn yn rhoi arwydd cyffredinol o oedran y cwmni, er y dylid cadw mewn cof y gallai cwmnïau hŷn yn arbennig fod wedi bodoli ers sawl blwyddyn cyn eu hymgorffori;
- **Natur y busnes (SIC)**: fel y dangosir yn y Cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (cod SIC) a roddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS);
- **Cyfeiriad swyddfa gofrestredig:** gallai hwn fod yn ddefnyddiol petaech am gynnwys y cwmni yn eich arolwg.

Nid yw'r gofrestr yn cynnwys manylion sy'n rhwydd eu cyrchu'n syth ynghylch incwm cwmni (trosiant blynyddol). I ganfod hyn, rhaid i chi ganfod eu datganiadau blynyddol (*annual returns*) sydd i'w gweld yng nghofnod y cwmni o dan y tab 'Filing history'. Chwiliwch am y fersiwn ddiweddaraf o ddogfen gydag enw fel y canlynol:

- **Eithriad llwyr o gyfrifon llawn** (*total exemption full accounts*) (ar gyfer cwmnïau bach sydd wedi'u heithrio rhag gorfod cael awdit o dan y Ddeddf Cwmnïau)[5]
- **Cyfrifon micro gwmni** (fel rheol ar gyfer cwmni sy'n cyflogi dim mwy na 10 o bobl)
- **Cyfrifon cryno** (*abridged accounts*) (e.e. ar gyfer cwmni sy'n cyflogi dim mwy na 50 o bobl)
- **Cyfrifon**
**- Cyfrifon grŵp o gwmnïau**

Felly, gall hyd yn oed y math o ddatganiadau blynyddol a gaiff eu ffeilio fod yn arwydd o "faint" cymharol y cwmni o ran ei incwm a nifer y bobl y mae'n eu cyflogi.

### 3.2 Cynnyrch Data Tŷ'r Cwmnïau sydd am ddim

Gellid treulio cryn amser yn chwilio drwy gofrestr Tŷ'r Cwmnïau am fanylion cwmnïau unigol. Gallai fod yn haws defnyddio Cynnyrch Data Tŷ'r Cwmnïau sy'n giplun ar un adeg mewn amser o ddata sylfaenol cwmnïau sy'n cynnwys yr holl gwmnïau byw yn y Deyrnas Unedig.[6] Caiff y cynnyrch data ei ddiweddaru bob mis ac mae ar gael i'w lawrlwytho fel ffeil CSV.[7]

Mae'r meysydd data sydd yn nhaenlenni'r cynnyrch data yn cyfateb yn bennaf i'r wybodaeth sylfaenol yng nghofrestr Tŷ'r Cwmnïau.[8] Mae'n bosibl y bydd dau o'r meysydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth chwilio a hidlo cwmnïau sy'n cyfateb i feini prawf dethol eich arolwg:

---

[5] I gael rhagor o wybodaeth ynghylch cwmnïau o ba faint sy'n gorfod ffeilio pa fath o gyfrifon, gweler: Tŷ'r Cwmnïau Companies House (2017) *Accounts filing options for small companies*. 5 Rhagfyr. Ar gael yn: https://www.gov.uk/government/news/accounts-filing-options-for-small-companies
[6] Tŷ'r Cwmnïau / Companies House (2022) *Free Company Data Product*. Ar gael yn: http://download.companieshouse.gov.uk/en_output.html
[7] Gallwch gyrchu Cynnyrch Data Tŷ'r Cwmnïau (Companies House Data Product) fel un ffeil fawr, neu mewn chwech o ffeiliau llai sydd ag enwau'r cwmnïau wedi'u trefnu'n ôl yr wyddor. Efallai y byddai'n well lawrlwytho'r chwe ffeil CSV llai o faint gan fod yr un ffeil yn fawr ac yn arafach i'w lawrlwytho. Mae Tŷ'r Cwmnïau yn argymell defnyddio MS Excel 2007 neu ddiweddarach.
[8] Mae rhestr lawn y meysydd data sydd wedi'u cynnwys yn y cynnyrch data ar gael yn Tŷ'r Cwmnïau: https://resources.companieshouse.gov.uk/toolsToHelp/pdf/freeDataProductDataset.pdf

- **cyfeiriad cofrestredig**: gall meysydd y dref bostio, cod post a sir fod yn ddefnyddiol i ganfod cwmnïau o ardal benodol; mae'r maes 'sir' yn gallu cyfateb i'r sir hanesyddol neu'r prif ardaloedd presennol (fel rheol yn dibynnu ar ddyddiad ymgorffori'r cwmni)[9]
- **cod SIC**: fel y disgrifir uchod, mae hwn yn rhoi Cod Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (cod SIC) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar lefel dosbarth neu is-ddosbarth. Nifer uchaf y codau a ganiateir ar gyfer pob cwmni yw pedwar.

Gallai'r wybodaeth uchod fod yn ddefnyddiol os ydych yn ceisio defnyddio meini prawf dethol daearyddol neu sectoraidd i'ch rhestr o sefydliadau i gynnal arolwg arnynt. Er mwyn cynorthwyo ymhellach gyda hyn, crëwyd rhestr taenlen o gwmnïau yng Nghymru wedi'u trefnu yn ôl prif ardal ac yn ôl sector fel rhan o brosiect Cofnodion mewn Perygl i'w defnyddio gan wasanaethau archifau (gweler adrannau 3.3-3.5 isod).

3.3 Setiau data cwmnïau o Gymru i'w defnyddio gan wasanaethau archifau yng Nghymru

Nid yw Cynnyrch Data Tŷ'r Cwmnïau yn cynnwys unrhyw faes sy'n eich galluogi i hidlo un elfen i adnabod yr holl gwmnïau yng Nghymru, neu mewn ardal benodol. Mae hyn oherwydd fod cwmnïau yn cofrestru eu cyfeiriadau mewn sawl ffordd wahanol: rhai yn rhoi 'Cymru' yn unig yn y maes 'gwlad'; mae eraill yn peidio â llenwi'r 'sir'. Mae llawer o gwmnïau hefyd yn cofrestru cyfeiriad rhanbarthol sy'n cyfateb i siroedd hanesyddol Cymru, er bod y mwyafrif fel petaent wedi'u rhestru o dan y brif ardal weinyddol bresennol. Gan ei bod felly'n anodd ac yn cymryd llawer o amser i lunio rhestr genedlaethol neu ranbarthol o gwmnïau oherwydd bod yn rhaid defnyddio hidlyddion lluosog, mae dwy set ddata o gwmnïau o Gymru wedi'u creu ar eich cyfer fel rhan o brosiect Cofnodion mewn Perygl i gynorthwyo gwasanaethau archifau gydag ymchwil yn y dyfodol.

Mae'r set ddata gyntaf yn rhestru cwmnïau yn ôl prif ardal, a'r ail yn ôl sector (sef cod SIC).

Mae'r setiau data ar gael i'w lawrlwytho ar fformat taenlenni Excel o wefan **'Basecamp' CACC**. Nid oes modd i'r cyhoedd ddefnyddio'r wefan hon ac mae i'w defnyddio gan wasanaethau archifau yng Nghymru yn unig.

Sylwer: mae'r taenlenni yn cynnwys data a ddaeth ar gael yng nghyhoeddiad cynnyrch data Tŷ'r Cwmnïau Tachwedd 2021. Felly er na cheir y wybodaeth ddiweddaraf am y cwmnïau a restrir, dylai'r cwmnïau nad ydynt ar y rhestr fod yn rhai sydd wedi'u hymgorffori'n ddiweddar (h.y. ar ôl Tachwedd 2021).

3.4 Set ddata sectorau busnes

Mae'r daenlen sy'n dwyn yr enw '**set ddata cwmnïau o Gymru (sectorau busnes)**' (Yn Saesneg: '**Welsh companies dataset (business sectors)**') yn rhestru dros 100,000 o gwmnïau yng Nghymru wedi'u trefnu yn ôl sector busnes. Mae'r set ddata yn cynnwys meysydd gwybodaeth dethol o gynnyrch data Tŷ'r Cwmnïau, wedi'u trefnu yn ôl Cod SIC.

Sylwer: mae'r Cod(au) SIC ar gyfer cwmnïau a restrir yn y cynnyrch data gwreiddiol wedi'u categoreiddio ar y dosbarth isaf neu ar lefel is-ddosbarth hierarchaeth SIC yr ONS. Gall hyn fod yn gategori digon cul, megis 'Growing of cereals (except rice), leguminous crops and oil seeds'. Er mwyn ei gwneud yn rhwyddach i lywio drwy'r rhestriadau sector, ychwanegwyd colofn (A) ychwanegol sy'n grwpio'r cwmnïau yn gyntaf yn ôl lefel uchaf Hierarchaeth SIC (sef 'is-adran/section'), megis gweithgynhyrchu neu adeiladu; nid yw'r data hwn wedi'i roi yng nghynnyrch data gwreiddiol Tŷ'r Cwmnïau ac mae wedi'i ychwanegu â llaw.[10]

---

[9] Penawdau'r meysydd: 'RegAddress.PostTown (colofn G); 'RegAddress.County' (Colofn H); 'RegAddress.PostCode' (Colofn J).

[10] Swyddfa Ystadegau Gwladol / Office for National Statistics (2022) *UK Standard Industrial Classification (SIC) Hierarchy*. Ar gael yn: https://onsdigital.github.io/dp-classification-tools/standard-industrial-classification/ONS_SIC_hierarchy_view.html

Yn ogystal â'u trefnu yn ôl y Cod SIC a restrir gyntaf, mae'r daenlen hefyd yn ail yn didoli yn ôl dyddiad ymgorffori, fel bod pob cwmni wedi'i grwpio ochr yn ochr ag eraill yn yr un dosbarth yn ei sector busnes ac yna'n cael ei drefnu'n gronolegol o'r hynaf i'r isaf. Bwriad y trefniant hwn yw ei gwneud yn haws adnabod cwmnïau o Gymru yn ôl sector yn ogystal ag yn ôl oedran, gan y gallai'r rhain fod yn ddau o'r meini prawf dethol mwy cyffredin ar gyfer gwasanaeth sy'n cynnal arolwg yn seiliedig ar sectorau.

Senarios enghreifftiol: set ddata sectorau busnes

Senario 1: Rydych yn bwriadu cynnal arolwg o archifau a chadw cofnodion ymhlith cwmnïau theatr a dawns Cymru a sefydlwyd yn ystod yr 1980au.

1. Agorwch daenlen MS Excel 'Set ddata cwmnïau o Gymru (sectorau busnes)'
2. Ewch i'r adran 'Arts, Entertainment and Recreation' a restrir yng **Ngholofn A** ('Sector' ['Is-adran' SIC yr ONS]).
3. Yn yr adran 'Arts, Entertainment and Recreation', dewch o hyd i'r dosbarthiadau perthnasol yng **Ngholofn B** ('SIC Cod 1'). Yng nghyd-destun yr arolwg hwn, gallai hwn fod yn: '90010 - Performing arts'
4. O fewn y cwmnïau a restrir o dan 'performing arts', edrychwch ar y dyddiad ymgorffori yng **Ngholofn K** i weld pa gwmnïau a ymgorfforwyd yn y 1980au.
5. Gallwch yn awr lunio rhestr o sefydliadau i gynnal arolwg arnynt o'r cwmnïau perthnasol:

| SIC Code 1 | Company Name | Company Number | Post Town | County | Postcode | Incorporation Date |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 90010 - Performing arts | THEATR NA N'OG | 1856580 | NEATH | | SA11 1NJ | 17/10/1984 |
| 90010 - Performing arts | THEATR IOLO LTD. | 2150427 | CARDIFF | | CF5 1QE | 27/07/1987 |
| 90010 - Performing arts | HIJINX THEATRE | 2161783 | CARDIFF BAY | | CF10 5AL | 07/09/1987 |
| 90010 - Performing arts | CENTRE FOR PERFORMANCE RESEARCH LIMITED | 2315790 | ABERYSTWYTH | DYFED | SY23 3AH | 10/11/1988 |
| 90010 - Performing arts | CWTSH ABERYSTWYTH LIMITED | 12085622 | CEREDIGION | | SY23 2NN | 24/04/1989 |
| 90010 - Performing arts | THE BRASS BAND SUMMER SCHOOL LIMITED | 2450437 | NEWPORT | | NP10 8LE | 07/12/1989 |
| 90010 - Performing arts | ARTS ACTIVE TRUST | 2454546 | CARDIFF | | CF10 1SH | 21/12/1989 |

**Senario 2: Mae gennych ddiddordeb mewn dysgu am gadw cofnodion ac archifau ymhlith ffermwyr defaid a gwartheg hynaf Cymru**

1. Agorwch daenlen MS Excel 'Set ddata cwmnïau o Gymru (sectorau busnes)'
2. Ewch i'r adran 'Agriculture, forestry and fishing' a restrir yng **Ngholofn A** ('Sector' ['Is-adran' SIC yr ONS]. O fewn 'Agriculture, forestry and fishing', dewch o hyd i'r dosbarth(iadau) perthnasol yng **Ngholofn B** 'SIC Code 1'). Yng nghyd-destun eich arolwg chi dylai hwn gynnwys:

- 01410 – Magu gwartheg godro / Raising of dairy cattle
- 01420 – Magu gwartheg eraill a byfflos/ Raising of other cattle and buffaloes
- 01450 – Magu defaid a geifr / Raising of sheep and goats

3. Nodwch, er enghraifft, y 5 cwmni uchaf sydd wedi'u rhestru o dan bob dosbarth. Gan fod y daenlen hefyd wedi'i threfnu yn gronolegol, y cwmnïau sydd ar y brig fydd y rhai hynaf:

| SIC Code 1 | Company Name | Company Number | Post Town | County | Incorporation Date |
|---|---|---|---|---|---|
| 01410 - Raising of dairy cattle | SARWED PROPERTIES LIMITED | 429803 | SWANSEA | WEST GLAMORGAN | 14/02/1947 |
| 01410 - Raising of dairy cattle | PENHILL FARM (FERRYSIDE) LIMITED | 595192 | CARMARTHEN | | 11/12/1957 |
| 01410 - Raising of dairy cattle | J.& D.FREEMAN LIMITED | 637208 | USK | GWENT | 15/09/1959 |
| 01410 - Raising of dairy cattle | WALTER PRICE & SONS LIMITED | 654697 | NEATH | | 30/03/1960 |
| 01410 - Raising of dairy cattle | GWYNFRYN FARM HOLIDAYS LIMITED | 745403 | GWYNEDD | | 28/12/1962 |
| 01420 - Raising of other cattle and buffaloes | GARTHGWYNION ESTATE LIMITED | 545706 | MACHYNLLETH | POWYS | 10/03/1955 |
| 01420 - Raising of other cattle and buffaloes | D.G. JONES (PROPERTIES) LIMITED | 657758 | TREGARON | | 29/04/1960 |
| 01420 - Raising of other cattle and buffaloes | A.ROWLANDS & SON(PRESTON BROOK)LIMITED | 689335 | NR, WREXHAM, | | 11/04/1961 |
| 01420 - Raising of other cattle and buffaloes | FACH PROPERTIES LIMITED | 720148 | GWYNEDD | | 02/04/1962 |

## 3.5 Set ddata rhanbarthau

Mae'r daenlen sy'n dwyn yr enw '**Set ddata cwmnïau o Gymru (prif ardaloedd)'** (yn Saesneg: '**Welsh companies dataset (principal areas)'**) yn cynnwys yr un cwmnïau a restrir yn set ddata'r sector busnes, ond eu bod wedi'u trefnu yma fesul rhanbarth. Mae gan bob prif ardal yng Nghymru ei thab ei hun; trefnir y tabiau yn nhrefn yr wyddor ar waelod y daenlen.

Mae pob tab (taflen waith) ar gyfer prif ardal benodol wedi'i ddidoli yn ôl oedran y cwmnïau gan ddefnyddio'r maes 'Dyddiad ymgorfforí', ac felly maent wedi'u rhestru o'r hynaf i'r mwyaf newydd. O'r herwydd, mae'r cwmnïau hynaf sydd wedi'u cofrestru ym mhob prif ardal i'w gweld ar frig y tab/taflen waith berthnasol.

Nid oes unrhyw swyddogaethau trefnu a didoli ychwanegol ar y daenlen. Fodd bynnag, pe bai gennych ddiddordeb mewn cynnal arolwg o gwmnïau o sector penodol mewn prif ardal benodol, gallech gymhwyso swyddogaeth dethol i'r maes 'Cod SIC 1', a byddai hyn wedyn yn rhestru'r holl gwmnïau yn ôl sector busnes.

Senarios enghreifftiol: set ddata rhanbarthau

**Senario 1: Mae gennych ddiddordeb cynnal arolwg ar y cwmnïau cofrestredig hynaf sy'n dal i weithredu ym Mhowys.**

1. Agorwch daenlen MS Excel 'Set ddata cwmnïau o Gymru (prif ardaloedd)'
2. Cliciwch ar y tab yn y daflen waith ar gyfer 'Powys' ar waelod y daenlen
3. Dylai'r cwmnïau uchaf ar y rhestr fod y rhai sydd â'r dyddiadau ymgorffori cynharaf; gallech lunio rhestr o ymatebwyr posibl i'ch arolwg o'r 10 cyntaf a restrir yma, er enghraifft:

| Company Name | Post Town | County | Postcode | Incorporation Date |
|---|---|---|---|---|
| CHESHIRE & NORTH WALES LAW SOCIETY LIMITED | WELSHPOOL | | SY21 7BE | 13/04/1881 |
| HOTEL METROPOLE(LLANDRINDOD)LIMITED | POWYS | | LD1 5DY | 07/01/1925 |
| SWANSEA & BRECON DIOCESAN TRUST INCORPORATED(THE) | BRECON | | LD3 9DP | 20/01/1926 |
| BOYS & BODEN, LIMITED | POWYS | | SY21 7BL | 03/08/1926 |
| LANGSUN LIMITED | PRESTEIGNE | POWYS | LD8 2UH | 26/09/1927 |
| ROBERT OWEN MEMORIAL MUSEUM(THE) | NEWTOWN | POWYS | SY16 2BB | 22/10/1928 |
| NEW DOVEY FISHERY ASSOCIATION(1929)LIMITED(THE) | MACHYNLLETH | POWYS | SY20 8ER | 30/10/1929 |
| THE MODULAR AND PORTABLE BUILDING ASSOCIATION LIMITED | CAERSWS | POWYS | SY17 5PU | 29/11/1940 |
| DAWSON SHANAHAN LIMITED | WELSHPOOL | POWYS | SY21 7BE | 27/01/1943 |
| WOODHEADS SEEDS LIMITED | YM MECHAIN | POWYS | SY22 6AQ | 14/08/1944 |

**Senario 2: Rydych am gynnal arolwg o gwmnïau adeiladu-adeiladau a sefydlwyd cyn 1960 yng Nghaerdydd neu'r cyffiniau.**

1. Agorwch daenlen MS Excel 'Set ddata cwmnïau o Gymru (prif ardaloedd)'
2. Cliciwch ar y tab yn y daflen waith ar gyfer Caerdydd ar waelod y daenlen
3. Dewiswch Golofn K ('SIC Code 1')
4. Cliciwch ar 'Sort & Filter'
5. Dewiswch 'Sort A to Z'
6. Edrychwch ar hierarchaeth SIC yr ONS ar-lein i weld pa (is-)ddosbarthiadau o dan adeiladu / 'construction' sy'n ymwneud yn benodol â chodi adeiladau. Gallai'r rhain fod yn:
- Dosbarth / Class 41.10: Datblygu prosiectau adeiladu / Development of building projects
- Dosbarth / Class 41.20: Codi adeiladau / Construction of buildings
7. Ewch yn ôl i'r daenlen MS Excel:
- ➢ Dewiswch Golofn K (SIC Cod 1) eto
- ➢ Pwyswch Ctrl + F a chwiliwch am 'development of building projects'; bydd hyn yn codi dechrau'r dosbarthiadau sy'n berthnasol
8. Edrychwch beth yw'r dyddiadau ymgorffori yng Ngholofn J o ran cwmnïau sydd wedi'u rhestru ym mhob dosbarth perthnasol
9. Dewiswch y cwmnïau sydd â dyddiadau ymgorffori cyn 1960 i lunio eich rhestr arolwg cyntaf:

| Company Name | Post Town | County | Postcode | Incorporation Date | SIC Code 1 |
|---|---|---|---|---|---|
| HENRY CORNER AND COMPANY,LIMITED | BUSINESS PARK CARDIFF | | CF23 8RS | 03/06/1913 | 41100 - Development of building projects |
| EMERALDA LTD | CARDIFF GATE BUSINESS PARK | CARDIFF | CF23 8RS | 25/04/1923 | 41100 - Development of building projects |
| CONNIES OF CARDIFF LIMITED | CARDIFF | SOUTH GLAMORGAN | CF23 9AF | 22/02/1926 | 41100 - Development of building projects |
| CARLYLE PROPERTY DEVELOPMENT COMPANY LIMITED | CARDIFF | SOUTH GLAMORGAN | CF10 1FS | 11/02/1956 | 41100 - Development of building projects |
| J.A.C. DEVELOPMENT LIMITED | CARDIFF | | CF23 5JE | 03/06/1960 | 41100 - Development of building projects |
| MODEX SPACES LTD | CARDIFF | | CF24 5HS | 25/06/1951 | 41201 - Construction of commercial buildings |

3.6 Cofrestr y Comisiwn Elusennau

Mae llawer o elusennau hefyd wedi'u hymgorffori fel cwmnïau ac efallai y bydd eu manylion ar gael wedyn drwy gofrestr Tŷ'r Cwmnïau. Fodd bynnag, os yw eich arolwg yn cynnwys sefydliadau elusennol gallwch hefyd chwilio drwy Gofrestr y Comisiwn Elusennau i gael manylion pellach gan fod hwn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am gyrff elusennol, gan gynnwys rhagor o wybodaeth am eu dibenion elusennol. Mae gwefan Cofrestr y Comisiwn Elusennau yn cynnig ffordd o chwilio ar-lein drwy eu cofrestr, ac mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.[11] Gallwch chwilio drwy eu cofrestr i chwilio am gofnodion am elusennau penodol a bydd yn rhoi'r wybodaeth ganlynol amdanynt:

- **Dyddiad cofrestru** (fel elusen)[12]
- **Manylion cysylltu** gan gynnwys cyfeiriad post, ffôn, e-bost a gwefan[13]
- **Diben(ion) elusennol**[14]
- **Ardal ddaearyddol** yr elusen[15]
- **Ymddiriedolwyr** yr elusen, gan gynnwys enwi swyddogion megis y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd[16]
- **Incwm** a gwariant.[17]

Y ffordd symlaf a hawsaf i gael gafael ar wybodaeth am sawl elusen yng nghofrestr y Comisiwn Elusennau yw drwy ddefnyddio'r swyddogaeth **chwiliad manylach**. Mae hyn yn rhoi modd i chi lunio rhestr o gwmnïau yn ôl amryw o feini prawf chwilio a lawrlwytho'r canlyniadau fel ffeil .csv.

**Chwiliad manylach drwy** Gofrestr y Comisiwn Elusennau ar lein.

➢ Cliciwch ar '**Chwiliad manylach'**

➢ Dewiswch o amryw o hidlyddion chwilio i greu rhestr o sefydliadau. Gallai'r canlynol yn arbennig fod yn ddefnyddiol:

1. **Dyddiad cofrestru**: gall hwn ddangos oedran yr elusen (ond sylwer y gallai llawer o elusennau fod wedi newid eu henwau a gallent hefyd fod wedi gweithredu ers sawl blwyddyn cyn eu cofrestru'n ffurfiol gyda'r Comisiwn);
2. **Incwm**: gellir defnyddio hwn i ddangos yn gyffredinol beth yw maint yr elusen

a. **Dosbarthiadau** (h.y. dibenion elusennol)

i. 'yr hyn y mae'r elusen yn ei wneud': gallai'r opsiwn hwn helpu i bennu diddordeb mewn mathau penodol o sefydliadau elusennol megis gweithgareddau crefyddol, chwaraeon, neu addysg.

ii. 'Pwy mae'r elusen yn eu helpu': mae hwn yn ddefnyddiol os oes gennych ddiddordeb mewn elusennau sydd â math penodol o fuddiolwyr, megis plant a phobl ifanc

b. **Elusennau sy'n gweithio'n genedlaethol ledled Cymru a Lloegr**: gallwch chwilio am elusennau sy'n gweithredu'n genedlaethol 'ledled Cymru' neu 'ledled Cymru a Lloegr', er enghraifft

c. **Elusennau sy'n gweithio yn lleol yng Nghymru a Lloegr**: mae'r opsiwn hwn yn gadael i chi ddewis o blith prif 22 ardal Cymru o dan 'Ardaloedd lleol yng Nghymru'.

➢ Cliciwch ar **'chwilio'**

[11] Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (2022) *Cofrestr Elusennau*. Ar gael yn: https://register-of-charities.charitycommission.gov.uk/cy/charity-search

[12] Gweler: y tab 'Llywodraethu' > 'Hanes cofrestru'.

[13] Gweler: y tab 'Gwybodaeth gyswllt'.

[14] Gweler: y tab 'Beth, pwy, sut, ble' > 'yr hyn y mae'r elusen yn ei wneud'.

[15] Gweler: y tab 'Beth, pwy, sut, ble' > 'ble mae'r elusen yn gweithredu'.

[16] Gweler y tab 'Ymddiriedolwyr'.

[17] Gweler 'Trosolwg o'r elusen > Incwm a gwariant > Cyfanswm incwm'

Mae'r canlyniadau chwilio sy'n codi wedi'u rhestru yn ôl Rhif Elusen, dylent fod wedi'u cyflwyno yn ôl trefn eu cofrestru â Chofrestr y Comisiwn Elusennau, o'r hynaf i'r mwyaf newydd.

Gallwch gael ffeil .csv o'r canlyniadau drwy glicio ar '**Allforio'r canlyniadau'** ar waelod y dudalen. Bydd y ffeil .csv hon yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth a restrir yng nghofnod yr elusen ar gyfer y gofrestr, gan gynnwys manylion sut i gysylltu â hi. Nid yw'n cynnwys dyddiadau cofrestru elusennau, dim ond ar gofnod yr elusen ar y gofrestr ar-lein y ceir hwn.

Rhai enghreifftiau ymarferol o feini prawf chwilio:

**Arolwg o elusennau yn y Canolbarth:**

Dosbarthiad: Y celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a'r gwyddorau

Ardaloedd lleol yng Nghymru: Powys a Cheredigion

**Arolwg o elusennau chwaraeon yn y Gogledd Ddwyrain:**

Dosbarthiad: Chwaraeon amatur

Ardaloedd lleol yng Nghymru: Sir y Fflint, Sir Ddinbych, a Wrecsam

**Arolwg cenedlaethol o elusennau anabledd:**

Dosbarthiad: anabledd

Pobl y mae'r elusen yn eu helpu: pobl ag anableddau

Elusennau yn gweithio yn genedlaethol: ledled Cymru

Rhan Dau: Cynnal arolwg o bell ar gofnodion

## 4. Trosolwg

Mae'r canllawiau isod yn amlinellu proses ar gyfer cynnal arolwg o bell ar gofnodion, gan ddefnyddio enghreifftiau o arolwg diweddar ar fusnesau ac elusennau yng Nghymru a gynhaliwyd ar ran CACC. Mae'n sôn am yr amgylchiadau pan allai arolwg o bell fod yn briodol, yn ogystal â rhai cyfyngiadau iddo o'i gymharu ag arolwg wyneb yn wyneb. Cynigir templedi ar gyfer gohebiaeth a holiadur enghreifftiol hefyd.

### 4.1 Cynnal arolwg o bell: manteision ac anfanteision

Mae archifyddion yn gyfarwydd â chynnal arolwg ar gofnodion mewn ystod o gyd-destunau. Maent yn gwneud hynny yn aml cyn i wasanaeth archifau dderbyn casgliad. Gall ymgynghorwyr hefyd eu cynnal ar ran gwasanaeth archifau mewn perthynas â derbyn casgliad posibl neu fel rhan o brosiect arolygu ehangach.

Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, cynhelir arolygon o'r fath yn bersonol ar safle'r sefydliad lle mae'r cofnodion i'w harchwilio. Mae manteision gwneud hynny, fel yr amlinellir ymhellach isod, yn cynnwys gallu gweld a thrin y deunyddiau er mwyn cael dealltwriaeth am eu maint a'u hamodau storio, yn ogystal â dealltwriaeth o sut maent wedi'u trefnu.

*Manteision*

Pam, felly, y byddai gwasanaeth archifau am ddewis cynnal prosiect arolwg o bell? Mae sawl sefyllfa lle gallai hyn fod o fudd:

- Mae'n anodd, neu'n amhosibl, ymweld yn gorfforol â'r sefydliad. Yr enghraifft gliriaf o hyn efallai yw cau busnesau yn sgil pandemig diweddar Covid-19. Hyd yn oed ar ôl i'r pandemig ddod i ben, fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau megis pellter, diffyg amser neu adnoddau a staff yn golygu na ellir cynnal arolwg wyneb yn wyneb.
- Mae'n gymharol hawdd i chi gynnwys ystod ehangach o gwmnïau mewn arolwg o bell ac ehangu ar nifer y cwmnïau rydych yn eu cynnwys
- Gallai arolwg o bell fod yn gam rhagarweiniol defnyddiol mewn arolwg ehangach ar gofnodion a allai maes o law gynnwys ymweliadau wyneb yn wyneb i gynnal arolygon manylach. Yn yr achos hwn, gallai'r arolwg eich helpu i fesur diddordeb sefydliadau allanol mewn cael rhywun i gynnal arolwg o'u cofnodion, yn ogystal â rhoi gwybodaeth gyd-destunol ddefnyddiol i'ch helpu i gynllunio'r camau nesaf.
- Mae cynnal arolwg o bell yn ddull da i chwilio am ffeithiau neu i wneud 'gwaith ymchwil i'r farchnad' er mwyn canfod gwybodaeth am amrywiaeth o sefydliadau yn eich cylch gwaith casglu, gan gynnwys sefydliadau y gallech helpu i ddiogelu eu harchifau naill ai drwy eu caffael neu drwy gefnogi gwaith i gael archif fewnol yn y sefydliad.
- Yn yr un modd, gall cynnal arolwg o bell fod yn ffordd gymharol effeithlon o ddarganfod mwy am anghenion cadwraeth sefydliadau allanol, a'r mathau o ganllawiau yr hoffent eu derbyn ynghylch sut i reoli eu harchifau. Gall yr adborth hwn eich helpu i roi cyngor pwrpasol i'r sefydliad neu, os yw'r arolwg yn tynnu sylw at angen mewn sawl sefydliad, eich helpu i ystyried datblygu canllawiau sy'n fwy cyffredinol berthnasol.

*Anfanteision a chyfyngiadau*

Yr anfantais fwyaf i gynnal yr arolwg o bell yw'r cyfyngiad ar faint o wybodaeth y gallwch ei chasglu am gyflwr y cofnodion, eu maint a'u trefniant. Yn gyffredinol, mae gwneud penderfyniadau am yr elfennau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i weithiwr cofnodion proffesiynol hyfforddedig allu gweld y casgliad in situ, ac mae'r un peth yn wir am yr amgylchedd storio y maent yn cael eu cadw ynddo. Er y gallwch ofyn cwestiynau cyffredinol am gyflwr a nifer y cofnodion a gedwir, mae'n debygol y bydd terfyn ar faint o wybodaeth y gall gweithwyr ei roi i chi oni bai eu bod yn weithwyr cofnodion proffesiynol. Gall hyn gynnwys gwybodaeth megis:

- Cyflwr ffisegol y cofnodion
- Amodau storio amgylcheddol y cofnodion
- Unrhyw risgiau a achosir gan y trefniadau storio presennol, gan gynnwys yr adeilad lle cânt eu cadw
- Faint o gofnodion sydd yna (e.e. mewn troedfeddi llinellol)
- Trefniant dealltwriaethol y cofnodion

Mae rhai enghreifftiau yn adran 6.5 isod ynghylch sut y gallwch geisio gael gwybodaeth gyffredinol gan y sefydliad am y materion hyn, er nad yw'r rhain wir yn foddhaol i gymryd lle arolwg wyneb yn wyneb os oes angen gwybodaeth fanwl am yr elfennau uchod.

### 4.2 Crynodeb: Pryd mae'n briodol cynnal arolwg o bell ar gofnodion?

Am y rhesymau uchod, mae arolwg o bell ar gofnodion yn annhebygol o fod yn ddewis amgen priodol mewn unrhyw achos lle mae gwybodaeth am gyflwr ffisegol a maint y cofnodion yn hollbwysig, megis arolwg i'w gynnal cyn caffael casgliad archifol newydd. Os mai un sefydliad yn unig sydd dan sylw, mae'n debygol y byddai'n well cynnal yr arolwg yn bersonol pan fo adnoddau'n caniatáu hynny. Fodd bynnag, mewn sefyllfa pan fo casglu gwybodaeth ehangach am amrywiaeth o sefydliadau yn ddefnyddiol fel rhan o ymarfer canfod ffeithiau, yna gallai arolwg o bell fod o ddefnydd. Gall enghreifftiau o'r cwestiynau y gall arolwg o'r fath eu hateb gynnwys:

- Pa fath o wybodaeth ac arweiniad allai fod o fudd i sefydliadau allanol sydd am geisio diogelu eu harchif mewnol eu hunain? Ydyn ni'n gallu eu cefnogi?
- A oes sefydliadau o fewn ein cylch gwaith casglu a allai fod â diddordeb mewn trosglwyddo cofnodion i'n gwasanaeth?
- Pa fathau o gofnodion sydd fel arfer yn cael eu cadw gan sefydliadau mewn sector penodol?
- A yw sefydliadau o fewn ein cylch gwaith casglu yn cadw cofnodion mewn fformatau na allwn eu diogelu ar hyn o bryd?
- Pa sector(au) sydd i'w weld i fod â diddordeb arbennig yn ei archifau a chadw cofnodion, a pha rai sy'n llai brwd? (fel y dangosir yn ôl eu hymatebolrwydd i'ch ymholiadau).

## 5. Cysylltu â sefydliadau

### 5.1 Dulliau cysylltu

Gallwch gysylltu â sefydliadau drwy lythyr, e-bost, neu dros y ffôn i gynnal arolwg o bell. Mae'n debyg mai'r dull cyfathrebu mwyaf effeithiol ar gyfer y gwahoddiad cyntaf i gymryd rhan mewn arolwg yw drwy e-bost gan y gallwch roi'r holl fanylion angenrheidiol a rhoi mwy o amser i dderbynwyr ystyried eu hymateb na phe baech yn eu ffonio, ond rydych yn dal yn debygol o gael ateb yn gyflymach na chysylltu trwy'r post. Os na fydd cwmni yn ateb eich gwahoddiad cyntaf, gallech ystyried trywydd arall fel ffonio. Bydd hyn yn cymryd mwy o amser, fodd bynnag, ac efallai na fydd yn ymarferol oni bai eich bod yn cynnal arolwg ar ystod gymharol gul o sefydliadau.

Wrth ysgrifennu at sefydliad nad ydych wedi bod mewn cysylltiad â nhw o'r blaen, y peth gorau yw ysgrifennu at unigolyn penodol a enwir megis rheolwr cofnodion neu swyddog gwybodaeth (os oes un) neu ysgrifennydd y cwmni, gan fod hyn yn fwy tebygol o arwain at gael ateb. Os nad oes person o'r fath yn bodoli, sy'n debygol iawn mewn elusen neu fusnes bach, yna gallech geisio cysylltu â'r cyfarwyddwr neu ymddiriedolwr a enwir.

5.2 Manylion cysylltu

Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau gyfeiriadau e-bost sydd ar gael yn rhwydd ar-lein neu drwy eu gwefan neu gyfeiriadur busnes. Os nad ydych yn gallu dod o hyd i fanylion cysylltu e-bost neu ffôn cwmni, fodd bynnag, gallwch ysgrifennu atynt i gyfeiriad eu swyddfa gofrestredig os ydynt wedi cofrestru â Tŷ'r Cwmnïau neu â Chofrestr y Comisiwn Elusennau:

Sut i ddod o hyd i gyfeiriad cofrestredig:

**Cwmnïau**

Chwiliwch am y cwmni ar-lein drwy gofrestr Tŷ'r Cwmnïau.

O dan '**Trosolwg/Overview**' gallwch ddod o hyd i gyfeiriad eu swyddfa gofrestredig.

O dan '**Pobl/People**' gallwch ddod o hyd i restr o swyddogion y cwmni, sydd fel rheol yn cynnwys ysgrifennydd y cwmni, a'u cyfeiriad gohebu.

**Elusennau**

Chwiliwch am y cwmni ar-lein drwy Gofrestr y Comisiwn Elusennau:

Cliciwch ar '**Manylion Cyswllt**' i gael rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a gwefan

I ganfod enwau **swyddogion** gallech edrych yn **adroddiadau blynyddol** yr elusen o dan 'cyfrifon a datganiadau'. Mae manylion swyddogion ac ymddiriedolwyr i'w cael fel rheol o dan yr adroddiad sy'n dwyn yr enw 'swyddogion gweithredol a chynghorwyr' neu fanylion gweinyddol a chyfeirio

5.3 Beth i'w ddweud

Wrth gysylltu â sefydliadau drwy e-bost neu lythyr, gall fod yn syniad da cynnwys y canlynol:

- Disgrifiad cryno o'r arolwg rydych yn ei gynnal a chyflwyniad i'ch gwasanaeth archifau neu sefydliad
- Esboniad ynghylch pam eich bod yn eu gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg, gan amlinellu arwyddocâd archifol neu hanesyddol posibl eu cofnodion a'u cyfraniad posibl at ymchwil yn y dyfodol yn eich cymuned leol neu'r sector dan sylw
- Esboniad bod yr arolwg yn rhoi cyfle i'r ymatebydd gael arweiniad ar ddiogelu archifau a chofnodion, yn ogystal â nodi eu diddordeb posibl mewn adneuo eu cofnodion hanesyddol gyda'ch gwasanaeth yn y dyfodol

Os ydych yn ysgrifennu at unigolion drwy'r post, efallai y byddai'n well cynnwys copi printiedig o'ch holiadur yn ogystal ag amlen ddychwelyd wedi'i chyfeirio atoch chi.

5.4 Llythyr ac e-bost enghreifftiol

Yn Atodiadau A a B ceir llythyr ac e-bost enghreifftiol a ddefnyddiwyd yn arolwg CACC o gofnodion busnesau ac elusennau, a gellir addasu hwn i'w ddefnyddio ar gyfer holiaduron tebyg o bell. Defnyddiwyd y llythyr i wahodd sefydliadau i lenwi ffurflen holiadur yn MS Word; mae'r templed e-bost wedi'i addasu o'i ddefnyddio ar gyfer arolwg ar-lein. Gellir defnyddio'r ddau destun yn gyfnewidiol, ond os ydych yn postio llythyrau at sefydliadau ynghylch holiadur ar-lein efallai y byddai'n well rhoi darparwr holiaduron sy'n galluogi defnyddio codau QR, gan fod hyperddolenni yn anodd mynd atynt wrth argraffu'r cyfeiriad.

Yn dibynnu ar nifer y sefydliadau y byddwch yn cysylltu â nhw, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol llunio taenlen i gofnodi'r atebion a'r sefydliadau y mae angen i chi gysylltu â hwy eto. Gall nodi pa fathau o sefydliadau a ymatebodd a'r mathau o gymorth y maent yn gofyn amdano hefyd eich helpu i ddadansoddi canlyniadau eich arolwg a chynllunio ar gyfer cynnal arolygon a chanllawiau yn y dyfodol. Mae Atodiad C yn rhoi enghraifft a ddefnyddiwyd yn arolwg busnesau ac elusennau CACC.

## 6. Holiadur eich arolwg o bell

### 6.1 A ddylech chi ddefnyddio holiadur?

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithlon o gasglu gwybodaeth mewn arolwg o bell yw drwy ffurflen holiadur. Bydd hyn yn eich galluogi i gymharu adborth ar draws sawl sefydliad wrth gynnal arolwg mawr. Fodd bynnag, mae anfanteision posibl i'r defnydd o ffurflen. Mae'r siart canlynol yn amlinellu cost a budd, gan bwyso ar ein profiad ni yn cynnal arolwg busnesau ac elusennau CACC.

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Mae'n caniatáu ar gyfer atebion mwy strwythuredig y gellir eu cymharu ar draws ystod eang o sefydliadau. | Gall y fformat strwythuredig gategoreiddio gormod a chyfyngu ar yr ymateb i gwestiynau sy'n llai cynrychioliadol o'u sefydliad. |
| Gall yr opsiynau a gynigir annog ymatebwyr i feddwl yn wahanol am yr ystod o ddeunyddiau a allai fod yn gofnodion sydd â gwerth hanesyddol. Mae hyn yn arbennig o wir pan fo rhestr o'r mathau o gofnodion wedi'i chynnwys yn y ffurflen holiadur. | Mae'n anodd datblygu ffurflen holiadur a fydd yn addas iawn i ystod eang o sefydliadau, yn enwedig os ydych yn cynnal arolwg ar draws sawl sector. |
| Gall annog ymatebion ymhlith sefydliadau sydd â llai o brofiad o waith archifol. | Gallai ymatebwyr a fyddai fel arall efallai yn rhoi mwy o fanylion roi ateb mwy cyfyngedig os ydynt yn llenwi ffurflen. |
| Mae'n haws i chi addasu'r arolwg i gyd-fynd â blaenoriaethau eich gwasanaeth. Er enghraifft, gallwch roi rhestr o fformatau cofnodion gan gynnwys y rhai y gallwch ac na allwch eu diogelu, i bennu a allwch dderbyn unrhyw gofnodion yn y dyfodol. | Fel arfer mae terfyn (10-15 cwestiwn) i nifer y cwestiynau y gallwch eu cynnwys os ydych yn defnyddio darparwr holiadur ar-lein, oni bai eich bod yn talu am fersiwn premiwm. |

Serch hynny, os byddai eich ffurflen holiadur yn annog rhagor o fanylion ar ôl pob ateb, efallai y byddai modd lleihau ar rai o'r anfanteision yn ymwneud â methu cael ffurflen safonol sy'n addas i bob math o sefydliad. Er anfon holiadur atynt, gallech hefyd annog ymatebwyr i ymateb yn ysgrifenedig, neu eich ffonio, os byddai'n well ganddynt.

### 6.2 Ffurflen holiadur

Mae'n weddol rhwydd llunio holiadur yn MS Word, neu feddalwedd prosesu geiriau tebyg. Gallwch gynnwys cyfuniad o flychau i'w ticio a lle gwag i ateb, fel yn yr enghraifft a roddir yn **Atodiad D**. Fodd bynnag, gall dogfennau Word fod ychydig yn llai haws i'w defnyddio na holiadur ar-lein gan fod yn rhaid i'r ymatebydd gadw'r ffeil a'i dychwelyd atoch fel atodiad. Y brif fantais, fodd bynnag, yw nad oes cyfyngiad ar nifer y cwestiynau y gallwch eu cynnwys.

6.3 Darparwyr holiaduron ar-lein

Mae nifer o ddarparwyr holiaduron ar-lein yn cynnig cynlluniau am ddim a rhai sy'n seiliedig ar danysgrifiad. Ymysg y darparwyr mwyaf poblogaidd mae Survey Monkey[18], Survey Smart[19], Type Form[20] a Jot Form[21].

Y prif wahaniaethau rhwng fersiynau am ddim a rhai premiwm fel arfer yw nifer y cwestiynau y gellir eu gofyn, nifer y defnyddwyr sy'n gallu creu holiaduron, a'r cymorth technegol a gynigir.

Prif fantais defnyddio ffurflen ar-lein yw y gall ymatebwyr glicio ar y ddolen a roddir iddynt mewn e-bost ac nid oes angen iddynt ddychwelyd ffurflen holiadur fel atodiad.

6.4 Enghreifftiau o gwestiynau y gallech eu cynnwys

Isod mae sampl enghreifftiol o gategorïau cwestiynau y dylech eu hystyried, yn seiliedig ar yr enghraifft sydd yn **Atodiad D.**

**Cwestiynau ynghylch amgylchiadau cadw cofnodion a'r trefniant arnynt**

Gall fod yn ddefnyddiol nodi ar y dechrau yn eich arolwg:

- A yw archifau'r cwmni yn cael eu cadw mewn archif fewnol*, cadwrfa allanol/gwasanaeth archifau
- Ymhle y caiff archifau eu cadw (os nad yn allanol)
- A oes rheolwr cofnodion, archifydd, swyddog gwybodaeth neu unigolyn penodol arall yn benodol gyfrifol am gadw cofnodion ac archifau.

*Nodiadau ar derminoleg yr holiadur

i. *"Archif fewnol" (in-house archive):* Pan ddefnyddiwyd yr holiadur sydd yn yr atodiad yn arolwg CACC o fusnesau ac elusennau, dewisodd un ymatebydd 'archif fewnol' ar gyfer y man lle cedwid eu cofnodion, ond nododd hefyd nad oedd ganddynt unrhyw unigolion enwebedig wedi'u penodi i fod â chyfrifoldeb penodol am reoli a chadw cofnodion. Os mai archif sefydledig wedi'i rheoli yn unig yr ydych yn ei olygu gydag 'archif fewnol', efallai y byddai'n well nodi hyn.

ii. Yn y ffurflen enghreifftiol, cyfeirir at archifau fel "*cofnodion eich sefydliad nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion busnes cyfredol*". Defnyddiwyd yr iaith hon i annog ymatebion gan sefydliadau a allai fod yn llai cyfarwydd â beth yw archifau, neu nad ydynt o bosibl yn ystyried eu cofnodion eu hunain i fod yn gofnodion o werth hanesyddol.

[18] https://surveymonkey.co.uk
[19] https://www.smartsurvey.co.uk/
[20] https://www.typeform.com/
[21] https://www.jotform.com/

### Cwestiynau ynghylch y mathau o gofnodion sydd ganddynt

*Rhestr cofnodion sampl*

Yn dibynnu ar bwrpas eich arolwg, gallech gynnwys rhestr o gofnodion posibl. Gallech roi enghreifftiau o fathau o gofnodion y gall ymatebwyr eu ticio er mwyn rhoi syniad o'u daliadau (gweler **Adran 2** yn yr holiadur enghreifftiol yn **Atodiad D**).

Gallech gynnwys, er enghraifft:

- cofnodion llywodraethu
- cofnodion ariannol
- cofnodion cyfreithiol
- ffeiliau staff/adnoddau dynol
- deunydd cyhoeddusrwydd

Os ydych yn cynnal arolwg sy'n benodol i sector, gallech hefyd deilwra'r rhestr i'r mathau o gofnodion sydd ganddynt. Er enghraifft gallai arolwg ar benseiri neu gwmnïau adeiladu gynnwys dyluniadau adeiladau, gallai arolwg ymysg elusennau gynnwys cofnodion Cofrestr y Comisiwn Elusennol, a gallai arolwg ymysg cyfreithwyr gynnwys ffeiliau achosion.

*Fformatau cadw*

Mae'r enghreifftiau yng nghwestiynau 5 a 6 yn yr holiadur enghreifftiol yn gofyn a yw cofnodion yn cael eu cadw ar bapur ac/neu ar ffurf ddigidol, yn ogystal ag a ydynt yn cadw unrhyw ddeunyddiau clyweledol. Fodd bynnag, gallech gynnwys gwestiwn manylach sydd â rhestr ddangosol o wahanol fathau o fformatau, er y gallai hyn gymryd mwy o amser i'r ymatebydd ei gwblhau.

Os ydych yn cynnal arolwg sy'n benodol i sector, gallech ystyried rhestr o fformat ffeiliau sydd wedi'i theilwra i'r fformatau sy'n debygol o fod gan y mathau o sefydliadau dan sylw. Er enghraifft, gallai cwmnïau adeiladu fod â ffeiliau CAD; gallai cwmnïau cynhyrchu'r cyfryngau fod â thapiau ffilm a VHS.

Efallai y byddwch hefyd yn benodol am gynnwys fformatau ffeiliau na allwch eu diogelu a'u cadw rhag ofn y bydd y cwmni'n mynegi diddordeb mewn adneuo cofnodion gyda'ch gwasanaeth yn y dyfodol.

### Cwestiynau ynghylch bwriadau'r sefydliad yn y dyfodol

*Bwriadau ar gyfer cadwraeth yn y dyfodol*

Gallech holi a oes gan y sefydliad unrhyw ddiddordeb mewn trosglwyddo unrhyw un o'i archifau i wasanaeth archifau allanol, fel eich un chi, yn y dyfodol.

*Diddordeb mewn cael rhywun i gynnal arolwg ar eu safle*

Er nad hyn yw wedi'i gynnwys yn y ffurflen enghreifftiol yn Atodiad D, os yw eich arolwg yn gam rhagarweiniol mewn prosiect sy'n rhagweld mynd ar ymweliadau i safleoedd, gallech ofyn a oes gan yr ymatebydd ddiddordeb mewn cael aelod o staff eich gwasanaeth archifau, neu ymgynghorydd allanol, yn cynnal arolwg mewn person ar eu cofnodion, neu a hoffent gael rhagor o wybodaeth am y broses.

*Diddordeb mewn cael arweiniad ar gadwraeth cofnodion ac archifau*

Mae'r arolwg yn gyfle i chi ddarganfod pa agweddau ar ddiogelu cofnodion y mae gan sefydliadau allanol ddiddordeb eu derbyn. Gall hyn gynnwys meysydd fel cadwraeth ddigidol, cynllunio at drychinebau, storio, a rheoli peryglon amgylcheddol.

6.5 Pa fath o gwestiynau allai fod yn anodd eu gofyn o bell?

Fel y crybwyllwyd yn adran 3.1 uchod ('Cyfyngiadau'), gallai'r meysydd canlynol fod yn anodd eu cynnwys mewn arolwg o bell, er y byddant yn rhan o arolwg mewn person ar y safle:

*Cwestiynau ynghylch cyflwr cofnodion*

Oni bai bod y sefydliad yn cyflogi archifydd ei hun, gall fod yn anodd i staff ateb cwestiynau am gyflwr eu cofnodion, gan y byddai hyn fel rheol yn gofyn am brofiad proffesiynol. Gallech holi a oes gan yr ymatebwyr unrhyw bryderon penodol yn ymwneud â pheryglon amgylcheddol hysbys fel plâu a llwydni. Fodd bynnag, efallai y bydd ystyriaethau diplomataidd hefyd yn pwyso yn erbyn gofyn i sefydliadau allanol am unrhyw hanes o blâu(!).

*Cwestiynau am faint o gofnodion sydd yno*

Byddai'n anodd, ac yn cymryd llawer o amser, i'r rhan fwyaf o staff nad oes ganddynt hyfforddiant archifol i roi mesuriadau manwl gywir o faint eu cofnodion (e.e. nifer o droedfeddi llinellol). Fodd bynnag, os yw eu cofnodion mewn bocsys neu ffeiliau, efallai gallech ystyried gofyn am nifer fras y bocsys, ffeiliau neu gabinetau ffeilio. Gallech hefyd ofyn a fyddent yn fodlon anfon ffotograffau a allai roi syniad i chi.

*Trefniant dealltwriaethol y cofnodion*

Elfen mewn unrhyw arolwg cofnodion ar y safle fel arfer fyddai llunio rhestr ffeiliau ar gyfer yr archifau sy'n cyfateb i gategorïau neu gynllun dosbarthiad busnes sy'n adlewyrchu'r dibenion y cawsant eu creu ar eu cyfer. Gall hyn fod yn dasg anodd i'w chyflawni wrth gynnal arolwg o bell, oni bai bod y sefydliad yn fodlon rhoi copi o Gofrestr Asedau Gwybodaeth neu restr ffeiliau debyg i chi. Fodd bynnag, gallech holi ynghylch bodolaeth rhestr o'r fath fel rhan o'ch arolwg, ac a fyddent yn fodlon darparu copi ohono.

6.6 Rhoi arweiniad ar ddiogelu archifau a chofnodion

Os yw sefydliad yn mynegi diddordeb mewn derbyn canllawiau ar faes penodol o gadwraeth cofnodion yn eu hymateb i'r arolwg, gallech ystyried naill ai darparu canllawiau pwrpasol iddynt neu roi copi o ganllawiau cyhoeddedig proffesiynol iddynt. Efallai y bydd yr opsiwn cyntaf yn fwy ymarferol os ydych yn cynnal arolwg llai o faint gyda nifer fach o sefydliadau yn ymateb, tra gall canllawiau sy'n bodoli eisoes fod yn ffordd fwy ymarferol ac effeithlon o roi gwybodaeth i grŵp mwy o faint.

Mae nifer o sefydliadau wedi cyhoeddi canllawiau a allai fod yn ddefnyddiol, gan gynnwys yn arbennig yr Archifau Gwladol, y Gynghrair Cadwraeth Ddigidol, a'r Canolfan Cynghori ar Gadwraeth a arferid gael ei redeg gan y Llyfrgell Brydeinig. Mae'r llyfryddiaeth ar ddiwedd y ddogfen hon yn rhestru adnoddau a chanllawiau ar-lein a anfonwyd at ymatebwyr arolwg CACC o sefydliadau yng Nghymru. Sylwer mai yn Saesneg yn unig y mae'r rhan fwyaf o'r canllawiau hyn ar gael ar hyn o bryd.

I rai sefydliadau, efallai y byddai'n ddefnyddiol rhoi trosolwg sylfaenol iddynt yn ogystal â gwybodaeth fanylach i'r rhai a allai fod â'r adnoddau i weithredu cynllun cadwraeth yn llawnach. Enghraifft o hyn yw'r canllawiau a restrir yn y llyfryddiaeth ar gynllunio at drychinebau, sy'n cynnwys trosolwg sylfaenol a luniwyd gan Swyddfa Gofnodion Norfolk yn ogystal ag enghraifft fanylach gan Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon.

Os bydd sawl ymatebydd yn mynegi diddordeb mewn maes penodol yn ymwneud â diogelu cofnodion, gallai hyn hyd yn oed fod yn gyfle i gynnig allgymorth iddynt ar ffurf hyfforddiant neu lunio canllawiau pwrpasol. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol os gallai sefydliadau elwa o ganllawiau sy'n benodol i'r sector ar gadwraeth neu os, fel yn yr enghreifftiau a grybwyllir uchod, yw'r canllawiau cyhoeddedig presennol ar gael yn Saesneg yn unig o bosibl.

### 6.7 Diogelu data

Yn ogystal â chwestiynau a allai fod yn anodd eu hateb, mae categorïau o wybodaeth bersonol y dylech ystyried eu heithrio o'ch arolwg o dan delerau GDPR y Deyrnas Unedig, gan gynnwys data categorïau arbennig yn enwedig.[22] Er enghraifft, gallech gynnwys cwestiwn ynghylch y math o swyddogion a gyflogir (e.e. archifydd, rheolwr cofnodion, swyddog gwybodaeth) heb ofyn am eu henwau neu eu manylion cysylltu. Os nad ydych yn eithrio data personol yn gyfan gwbl, yna dylech sicrhau eich bod yn ei brosesu yn unol ag egwyddorion diogelu data fel yr amlinellir yn GDPR y Deyrnas Unedig.[23]

Hyd yn oed os nad ydych yn cynnwys data personol yn eich ffurflen holiadur, efallai y byddai'n dal yn syniad da cynnwys datganiad ynghylch trin data yn rhoi manylion ynghylch sut y defnyddir yr wybodaeth, gan gynnwys unrhyw bosibilrwydd y caiff ei rannu â phobl neu grwpiau eraill. Mae'r templed yn **Atodiad D** yn cynnwys yr enghraifft ganlynol:

| |
|---|
| **Trin data'r holiadur:** Nid oes cwestiynau sy'n holi am ddata personol yn yr holiadur hwn. Ni fydd y data a ddychwelir ar gael i'r cyhoedd ac eithrio ar ffurf gydgasgledig nad yw'n enwi sefydliadau yn benodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y rhennir canlyniadau holiadur unigol yn fewnol ymhlith aelodau staff a phartneriaid y prosiect yn Nghyngor Archifau a Chofnodion Cymru (ARCW), yn enwedig os mynegir diddordeb posibl mewn adneuo cofnodion gyda gwasanaeth archifau allanol yn y dyfodol. |

I gael rhagor o wybodaeth a chanllawiau ynghylch sut i gynnwys datganiadau gwybodaeth am breifatrwydd yn eich holiaduron ar-lein a rhai ar bapur, gweler tudalennau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar Gasglu Data Personol.[24]

[22] Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office (2022) *Special Category Data*. Ar gael yn: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/lawful-basis-for-processing/special-category-data/

[23] Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office (2022) *The Principles*. Ar gael yn: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/principles/

[24] Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office (2022) *Collecting Personal Data*. Ar gael yn: https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-data-protection/key-dp-themes/guidance-for-the-use-of-personal-data-in-political-campaigning-1/collecting-personal-data/

## Llyfryddiaeth a darllen pellach


Cynnal arolygon ar gofnodion

Ymddiriedolaeth Ballast/The Ballast Trust (2021) *FIELDWORK: Mapping Scotland's Business Archives*. Ar gael yn: https://ballasttrust.org.uk/fieldwork/

Swyddog Arolygon Archifau Busnes / Business Archives Surveying Officer (d.d.) *Case Studies*. Ar gael yn: https://surveyingofficer.co.uk/case-studies/

Cowling, C. (2021) *Undeposited Records in Oxfordshire: identification and preservation of privately owned record. STAGE 2 Report: survey and analysis of local history groups and community archives in Oxfordshire.* Ar gael yn: https://ials.sas.ac.uk/library/archives/legal-records-risk-lrar-project/lrar-research-surveys

Cowling, C. (2019) *Undeposited Records in Oxfordshire: a methodology for the identification and preservation of private sector records*. Ar gael yn: https://ials.sas.ac.uk/sites/default/files/files/oxon%20first%20stage%20report%20final%202019.pdf

Cowling, C. (d.d..) *Legal Records at Risk: Questionnaire for Law Firms*. Llundain: Institute of Advanced Legal Studies. Ar gael yn: https://ials.sas.ac.uk/sites/default/files/files/Research/LRAR/Questionnaire%20law%20firms-ials-V1.pdf

Yr Archifau Gwladol (d.d.) *Research Guides: How to Look for Records of Companies and Businesses*. Ar gael yn: https://www.nationalarchives.gov.uk/help-with-your-research/research-guides/companies-and-businesses/

Richmond, L. a Stockford, B. (1986) 'Company Archives: The Survey of the Records of 1000 of the First Registered Companies in England and Wales'. Aldershot: Gower.

Wiltshire, R. 'Acquisition, appraisal, arrangement and description' yn A. Turnton (gol.) (2017) *The International Business Archives Handbook: Understanding and Managing the Historical Records of Businesses*, tt. 174-252. (Gweler yn arbennig 'Surveying business archives' yn tt. 180-187).

Adnoddau ar-lein i gael canllawiau ar gadwraeth cofnodion ac archifau

### Egwyddorion Archifau/Cyflwyniad i Archifau

- Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru (2022) *Beth yw Archifau?* Ar gael yn: https://archifau.cymru/beth-yw-archifau/
- Yr Archifau Gwladol (2016) *Archive Principles and Practice: An Introduction to Archives for Non-archivists*. Ar gael yn: https://cdn.nationalarchives.gov.uk/documents/archives/archive-principles-and-practice-an-introduction-to-archives-for-non-archivists.pdf

### Canllawiau diogelu sylfaenol

- Canolfan Cynghori ar Gadwraeth / Preservation Advisory Centre (2013) *Basic Preservation for Library and Archive Collections*. argraffiad diwygiedig 2013. Ar gael yn: https://www.bl.uk/britishlibrary/~/media/bl/global/conservation/pdf-guides/basic-archive-preservation-guide.pdf
- Swyddfa Gofnodion Norfolk / Norfolk Record Office (2022) *Preservation*. Ar gael yn: https://www.archives.norfolk.gov.uk/community-archives/preservation

### Cadwraeth ddigidol

- Cymdeithas Llyfrgelloedd America / American Library Association (2022) *Digital Preservation*. Ar gael yn: https://www.ala.org/alcts/preservationweek/howto/digital-preservation-tips
- Y Gynghrair Cadwraeth Ddigidol / Digital Preservation Coalition (2015) *Digital Preservation Handbook*. 2il argraffiad. Ar gael yn: https://www.dpconline.org/handbook

### Silffoedd a Dodrefn Storio

Canolfan Cynghori ar Gadwraeth / Preservation Advisory Centre (2012) *Library and Archive Storage* Furniture. Argraffiad diwygiedig 2012. Ar gael yn: https://www.bl.uk/britishlibrary/~/media/bl/global/conservation/pdf-guides/library-and-archive-storage-furniture-guide.pdf

### Plâu

Y Llyfrgell Brydeinig / British Library (2021). *Managing Pests in Paper Based Collections*. Argraffiad diwygiedig 2016. Ar gael yn: https://www.bl.uk/britishlibrary/~/media/bl/global/conservation/pdf-guides/managing-pests-in-paper-based-collections-guide.pdf

### Llwydni

Canolfan Cynghori ar Gadwraeth / Preservation Advisory Centre (2011). *Mould Outbreaks in Library and Archive Collections*. Argraffiad diwygiedig 2011. Ar gael yn: https://www.bl.uk/britishlibrary/~/media/bl/global/conservation/pdf-guides/mould-outbreaks-in-libraries-preservation-guide.pdf

### Cynllunio at drychineb

- Swyddfa Gofnodion Norfolk / Norfolk Record Office (2022) *Disaster planning*. Ar gael yn: https://www.archives.norfolk.gov.uk/community-archives/preservation/disaster-planning
- Swyddfa Cofnodion Cyhoeddus Gogledd Iwerddon / Public Record Office of Northern Ireland (2006) *Preservation of Records: Disaster Plan*. Ar gael yn: https://collectionstrust.org.uk/resource/preservation-of-records-disaster-plan/

Atodiad A: Llythyr arolwg enghreifftiol

Archifau Cymru Archives Wales

[*Cyfeiriad*]

[*Dyddiad*]

Annwyl [*Syr/Madam/enw*]

Ar ran Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru, hoffwn wahodd [*enw'r cwmni*] i gymryd rhan mewn arolwg am archifau a chadw cofnodion ymhlith busnesau, elusennau a sefydliadau yng Nghymru. Bwriad yr arolwg yw gweld pa gofnodion sydd o werth diwylliannol a hanesyddol mawr, a chynnig cefnogaeth ar gyfer eu cadwraeth hirdymor lle bynnag y bo modd. Gan fod [*enw'r cwmni*] wedi'i nodi i fod yn sefydliad y gallai ei gofnodion hanesyddol gynnig gwerth sylweddol i dreftadaeth Cymru, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech gymryd rhan.

Os ydych yn fodlon ymuno yn yr arolwg, a fyddech gystal â chadarnhau drwy ateb yr e-bost hwn ac yna fe anfonaf holiadur atoch sy'n holi am gadw cofnodion a'r mathau o gofnodion sydd gan eich sefydliad. Gellir defnyddio'r holiadur hefyd i ddangos eich diddordeb mewn derbyn canllawiau ar ddiogelu cofnodion hanesyddol i'r hirdymor.

Diolch i chi am ystyried ein cais.

Yr eiddoch yn gywir

[*LLOFNOD*]

Swyddog Cofnodion mewn Perygl

E-bost: [cyfeiriad]

Gwefan Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru:
https://archifau.cymru/cacc/

## Atodiad B: E-bost arolwg enghreifftiol

Annwyl Syr/Madam,

Ar ran Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru, hoffwn wahodd [*enw'r cwmni*] i gymryd rhan mewn arolwg am archifau a chadw cofnodion ymhlith busnesau, elusennau a sefydliadau yng Nghymru. Bwriad yr arolwg yw gweld pa gofnodion sydd o werth diwylliannol a hanesyddol mawr, a chynnig cefnogaeth ar gyfer eu cadwraeth hirdymor lle bynnag y bo modd. Gan fod [*enw'r cwmni*] wedi'i nodi i fod yn sefydliad y gallai ei gofnodion hanesyddol gynnig gwerth sylweddol i dreftadaeth Cymru, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech gymryd rhan. Gellir defnyddio'r holiadur hefyd i ddangos eich diddordeb mewn derbyn canllawiau ar gadwraeth eich cofnodion hanesyddol i'r hirdymor.

Os ydych yn fodlon ymuno yn yr arolwg, a fyddech gystal â llenwi'r holiadur drwy'r ddolen isod. Dylai'r cwestiynau gymryd llai na deng munud i'w hateb. Fodd bynnag, os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr arolwg, mae pob croeso i chi gysylltu â mi.

Diolch i chi am ystyried ein cais.

Dymuniadau gorau,
*[Swyddog Prosiect Cofnodion mewn Perygl]*

**Yr holiadur yn Saesneg** https://www.surveymonkey.co.uk/r/6GWLGXV

Archifau Cymru Archives Wales

**Gwefan Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru:**

https://archifau.cymru/cacc/

## Atodiad C: Sampl cofnodi gohebiaeth

| ENW | Rhif cofrestredig y cwmni / elusen | Dyddiad gyrru | Enw a chyfeiriad y derbynnydd | Sut cysylltwyd â nhw? | Ymateb wedi'i dderbyn? [Dyddiad] | Rhestr cofnodion wedi'i llenwi? | Mynegi diddordeb mewn adneuo cofnodion? | Lleoliad lle cadwyd yr ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ABC Cyf | ######## | 02/09/2021 | [Enw] [Cyfeiriad e-bost] | E-bost | 15/09/2021 | Do | Naddo | MS Sharepoint > 2021 arolwg > ymatebion |
| 31415926 Cyf | ########## | 01/02/2022 | [Enw] [Cyfeiriad swyddfa gofrestredig] | Post | 23/02/2022 | Do | Do | MS Sharepoint > 2022 arolwg > ymatebion |

## Atodiad D: Holiadur enghreifftiol i gynnal arolwg o bell ar gofnodion

Arolwg yr ARCW ar Gofnodion Sefydliadau: Holiadur

***Trin data'r holiadur***: *Nid oes cwestiynau sy'n holi am ddata personol yn yr holiadur hwn. Ni fydd y data a ddychwelir ar gael i'r cyhoedd ac eithrio ar ffurf gydgasgledig nad yw'n enwi sefydliadau yn benodol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y rhennir canlyniadau holiadur unigol yn fewnol ymhlith aelodau staff a phartneriaid y prosiect yn Nghyngor Archifau a Chofnodion Cymru (ARCW), yn enwedig os mynegir diddordeb posibl mewn adneuo cofnodion gyda gwasanaeth archifau allanol yn y dyfodol.*

Adran 1: Cwestiynau:

*O ran unrhyw gwestiynau lle cynigir dewis i chi, rhowch groes [x] yn y blychau perthnasol.*

1. Enw'r sefydliad:

2. A yw cofnodion eich sefydliad, megis y rhai a restrir yn Adran 2 isod nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion busnes cyfredol, yn cael eu cadw mewn archif fewnol neu gan wasanaeth archifau allanol?

Archif fewnol ☐

Gwasanaeth archifau allanol (e.e. cadwrfa eich awdurdod lleol) ☐

Dim un o'r ddau ☐

Os yw'n berthnasol, rhowch enw'r gwasanaeth archifau allanol isod:

3. Os *nad* ydynt wedi'u storio mewn archif fewnol neu wasanaeth archifau allanol, ymhle y cedwir eich cofnodion nad ydynt yn cael eu defnyddio at ddibenion busnes cyfredol?

Ar y safle mewn lleoliad penodedig ☐

Ar y safle mewn lleoliad(au) heb ei nodi'n benodol ☐

Oddi ar y safle ☐

4. A ydych chi'n cyflogi rheolwr cofnodion neu archifydd, neu a oes unigolyn penodol wedi'i enwebu i fod yn gyfrifol am reoli eich cofnodion a'u diogelu yn y tymor hir?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol:

Archifydd(ion) ☐

Rheolwr(wyr) Cofnodion ☐

Unigolyn(ion) penodol arall ☐

Dim un o'r uchod ☐

5. A oes gennych gofnodion mewn fformatau papur a digidol?

Oes: y ddau ☐

Nac oes: Cofnodion papur yn unig ☐

Nac oes: Cofnodion digidol yn unig ☐

6. A oes gennych unrhyw ddeunyddiau clyweledol (e.e. recordiadau sain, ffilmiau neu fideos)?

Oes ☐

Nac oes ☐

Os 'Oes' nodwch y mathau o ddeunydd clyweledol:

7. Yn y dyfodol, a fyddai'n well gennych gadw eich cofnodion yn fewnol neu a fyddech yn ystyried trosglwyddo cofnodion hanesyddol i storfa archifau allanol (e.e. cadwrfa eich awdurdod lleol)?

Mae'n well gennym eu cadw'n fewnol ☐

Byddem yn ystyried trosglwyddo i storfa allanol ☐

Ddim yn berthnasol gan fod cofnodion hanesyddol eisoes wedi'u trosglwyddo ☐

8. Os nad oes unigolyn penodol megis archifydd neu reolwr cofnodion yn gyfrifol am gadwraeth eich cofnodion, a oes gennych ddiddordeb cael canllawiau cyhoeddedig am ddiogelu cofnodion i'r hirdymor?

Oes ☐

Nac oes ☐

9. Os ateboch 'Oes' i gwestiwn 8, a oes unrhyw faterion penodol ynghylch cadw eich cofnodion hanesyddol y byddech yn hoffi cael cyngor arnynt?

Cyflwyniad cyffredinol i archifau ☐

Cadwraeth sylfaenol ☐

Dodrefn a silffoedd storio ☐

Cadwraeth ddigidol ☐

Rheoli llwydni ☐

Rheoli pla ☐

Cynllunio at drychineb ☐

Pethau eraill (rhowch fanylion):

10. Os yw'n bosibl, a fyddech cystal â llenwi'r ffurflen yn **Adran 2** isod er mwyn nodi'r mathau o gofnodion sydd gennych?

Adran 2: Y mathau o gofnodion y gallai fod gennych:

Cofnodion yn ymwneud â llywodraethu:

- Cyfansoddiad ☐
- Tystysgrifau ymgorffori ☐
- Rheolau/Memorandwm ac Erthyglau'r Gymdeithas ☐
- Adroddiadau blynyddol ☐
- Cofnodion/papurau Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol ☐
- Cofnodion y Bwrdd ☐
- Crynodeb o gofnodion aelodaeth ☐

Cofnodion ariannol:

- Cyfrifon a ffurflenni blynyddol ☐
- Polisïau/cynllunio cyllidebol ☐
- Llyfrau cyfrifon ☐

Cyfreithiol/safleoedd:

- Contractau/cytundebau ☐
- Patentau ☐
- Gweithredoedd ☐

Staff:

- Ffeiliau personél ☐

Cyhoeddusrwydd ac adnoddau eraill:

- Ffotograffau/deunydd cyhoeddusrwydd ☐
- Albymau/llyfrau lloffion ☐
- Cylchlythyrau ☐
- Cyhoeddiadau ar-lein ☐
- Datganiadau i'r wasg ☐
- Cofnodion digwyddiadau ac achlysuron (e.e. gwahoddiadau, ffotograffau) ☐

Cofnodion elusennau (os yw'n berthnasol):

- Gweithredoedd ymddiriedolaeth ☐
- Cofnodion y Comisiwn Elusennau (e.e. ar gyfer rhyw gynllun) ☐
- Apeliadau codi arian, gan gynnwys cyfrifon a deunyddiau cyhoeddusrwydd ☐
- Papurau personol gan sylfaenwyr, aelodau gweithredol, rhoddwyr neu wirfoddolwyr ☐

Unrhyw fathau eraill o gofnodion (rhowch fanylion):